
# Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin

*'Gwreiddiau Cadarn – Sylfaen y Dyfodol'*




## <u>Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni 2024-2025</u>

Ysgol Gynradd Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ½ ac 11 oed

**Pennaeth**

Mrs C Richards

**Cadeiryddes y Llywodraethwyr**

Mrs M Jones

Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin,

Heol Y Parc

Cefneithin,

Llanelli,

SA14 7DE.

Ffôn: 01269 842061

E-bost: admin@cefneithin.ysgolccc.cymru

Gwefan: https://www.cefneithin.ysgolccc.cymru

## Gair gan y Cadeirydd

Annwyl Riant/ Warcheidwad,

Croeso i Adroddiad y Llywodraethwyr 2024/25. Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i Mrs Carys Richards am ei rôl fel pennaeth am fod yn effeithiol wrth arwain staff talentog a gweithgar yr ysgol - y staff dysgu a chynorthwyol, gweinyddol, arlwyo , rheolaeth safle a glanhau. Mae gwaith **pob** aelod o staff yr ysgol yn allweddol ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Heb anghofio aelodau CRhA yr ysgol gyda'u hymdrechion gwych wrth drefnu nifer o ddigwyddiadau hwyl a buddiol i ein disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn ategu at ysbryd gymunedol hapus yr ysgol a'r gymdeithas ehangach. Mae blwyddyn academaidd 2024/25 wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol i ein disgyblion a staff ar sawl lefel, fel y byddwch yn gweld o'r adroddiad hwn. Mae'r amcanion dysgu ac addysgu o fewn y dosbarth yn cydfynd gyda'r gweithgareddau allgyrsiol sydd yn cael eu trefnu gan y staff egnïol ac mae hyn yn fanteisiol tu hwnt i ein disgyblion. Mae y profiadau hyn oll, ynghyd ag eich cefnogaeth fel rhieni a gwarchodwyr yn sicrhau bod ysgol Cefneithin yn cyflawni ei gweledigaeth o **Gwreiddiau Cadarn – Sylfaen y Dyfodol.**

Fel Corff Llywodraethol yr ydym yn anelu i gefnogi ac i herio ein rhwydwaith ysgol gymaint â phosib fel bod anghenion ein disgyblion a staff yn cael eu cwrdd. Gwirfoddolwyr ydym ni fel llywodraethwyr sydd yn cynrychioli yr ysgol a'r gymuned leol. Rwy'n ffyddiog fy mod yn siarad ar ran yr holl gorff pan y dywedaf ein bod yn cymeryd balchder mawr yn ein hysgol, ac yr hyn sydd yn flaenllaw i bob penderfyniad a wneir yw lles ein disgyblion a staff. Hoffwn hefyd uwcholeuo yr hyn sydd yn digwydd y tu ôl i'r llenni gan staff yr ysgol. Mae gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn gallu bod yn heriol pan y mae staff ac arweinwyr yn wynebu polisïau newydd o'r Llywodraeth, yn cydymffurfio gyda gofynion a ymwna gyda gwybodaeth a data oddi wrth yr Awdurdod Lleol a'r angen i gydbwyso cronfa'r ysgol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Holl bwysig yw cofio bod y gofynion hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth ddyddiol o ofal, o gynllunio o ddysgu ac o asesu gan staff addysgu yr ysgol.

Ar adegau, gall rôl y corff llywodraethol o bosib fod yn amwys. Yr wyf felly am eich gwneud yn ymwybodol o'r gweithgareddau yr ydym yn blaenoriaethu yn ystod ein cyfarfodydd ac yn ystod ein hymweliadau i'r ysgol:

**Cynllun Datblygu Ysgol** – Cynllun blynyddol a ymwna gyda gosod blaenoriaethau yn dilyn monitro. Mae'r CDY yn cysylltu gyda'r cynllun strategol hirdymor. Mae'n ymdrin gydag amryw faterion … o'r cwricwlwm, i brofiadau disgyblion , i iechyd a lles.

**Monitro** – Ymweliadau i'r ysgol yw y broses hon. Mae safonau popeth o iechyd a diogelwch a diogelu i wersi a datblygiad athrawon yn cael eu gwirio.

**Iechyd a Lles** – Dros y blynyddoedd diwethaf mae pwysigrwydd iechyd meddwl a lles yn yr ysgol i ein disgyblion a staff wedi dod yn fwyfwy amlwg.

**Yr adeilad a chyfleusterau** – Mewn adeg heriol yn ariannol, mae gan y corff llywodraethu rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod y buddsoddiadau cywir yn cael eu gwneud i waith a ymwna gydag adeilad a chyfleusterau'r safle.

**Cyllid** – Yn ganolog i nifer fawr o'n trafodaethau mae cyllid, neu yn anffodus diffyg ohono. Yn flynyddol, mae cyllid yr ysgol yn cael ei herio fwyfwy gydag amryw gostau cynyddol. Fodd bynnag, gwraidd pob pendefyniad yw sicrhau ein bod yn gwneud y dewis gorau ar gyfer  disgyblion a staff ein hysgol.

Rwy'n gobeithio fod yr uchod yn cynnig mewnwelediad i chi o ehangder a dyfnder cyfranogiad y corff llywodraethol.

Mae'n bleser i weld yr holl waith anhygoel sydd yn digwydd yn ein hysgol wrth edrych ar y wefan ac ar y safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

Hoffwn gloi gan ddymuno'r gorau i holl blant, staff a rhieni yr ysgol yn ystod y flwyddyn academiad nesaf.

Dymuniadau gorau,

Mali Jones

Cadeirydd y Llywodreathwyr



# Aelodau Corff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin

*Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethol gan eithrio'r Pennaeth yn gwasanaethu am 4 blynedd.*

Mrs C Richards - Pennaeth
Mrs M Jones (**Cadeiryddes y Llywodraethwyr**) - Cynrychiolydd Rhieni
Mrs J Price **(Is-Gadeirydd**) – Cynrychiolydd y Gymuned
Mr H Tudur – Cynrychiolydd Rhieni
Mr R Culley – Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol
Mrs D Griffiths – **(Llywodraethwraig â chyfrifoldeb dros ddiogelu plant)**
Mrs C Lloyd **-** Cynrychiolydd y Gymuned
Mr A Rees **-** Cynrychiolydd y Gymuned
Miss C Huntley – Cynrychiolydd Staff Addysgu'r Ysgol
**Clerc i'r Llywodraethwyr** – Mrs S McDonald

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn adlewyrchu trawsdoriad y gymuned leol. Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am reoli polisïau'r Awdurdod Addysg a deddfwriaeth ysgolion y wlad. Yn dilyn rheolau Rheoli Ysgolion Lleol mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes. Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod unwaith bob tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w drafod gan y Corff Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati.

**Ethol cynrychiolwyr y rhieni yn llywodraethwyr:**

Weithiau bydd angen ethol rhieni i'r Corff Llywodraethol. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y broses yma y tro nesaf bydd angen ethol rhieni.

**Sut ydw i'n cysylltu â'r Corff Llywodraethol?** Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, gallwch ysgrifennu at y Cadeirydd naill ai drwy lythyr neu e-bost drwy swyddfa'r ysgol. Croesawn eich cyfraniad ar bob achlysur.

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol bellach i'r rhieni, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri cyfarfod y flwyddyn, a hynny drwy roi deiseb i fewn gyda 10% o'r rhieni a fynacha yr ysgol yn arwyddo'r ddeiseb, a nodi pam maent eisiau galw cyfarfod.

**Costau'r Corff Llywodraethu:** Ni hawliwyd costau unigol gan unrhyw lywodraethwr.

**Cwynion:** Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2024/25

# Staff yr Ysgol

**Pennaeth** - Mrs C Richards – (Uwch *Swyddog Diogelu Plant)*

**Staff Addysgu:**

**Dosbarth Cefneithin (Meithrin a Derbyn)** Mrs Huntley – (*Swyddog diogelu plant yn absenoldeb y pennaeth*)

**Dosbarth Llyn Llech Owain (Blwyddyn 1 a 2)** Mrs Bevan

**Dosbarth Mynydd Mawr (Blwyddyn 3 a 4)** Miss Sturrock

**Dosbarth Cwm Gwendraeth (Blwyddyn 5 a 6)** Mrs Richards a Miss Rees

**Sesiynnau CPA** Miss M Rees

**Cynorthwywyr dosbarth:** Mrs Place, Mrs Davies, Miss Millard, Miss Davies

**Swyddog Gweinyddol:** Miss Lintin

**Gofalwraig :** Ms Webb

**Glanhawr :** Mr Hunt

***Y Gegin*** : Ms.Wiggall a Miss Cadogan

**Goruchwylwyr Canol dydd:** Ms Williams, Mrs Place, Mrs Davies, Miss Millard

**Clwb brecwast:** Mrs Williams, Miss Cadogan, Mr Payne

**Athro teithiol offerynnol:** Mr Jackson

**Gwirfoddolwyr:** Mrs Lloyd a Mrs Jones

## Datganiad o Genhadaeth yr Ysgol:

*'Gwreiddiau Cadarn – Sylfaen y Dyfodol'*

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob plentyn, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial.

**Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Cymraeg yw’r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae’n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi’r dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda’r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**.

Yn unol â pholisi’r ysgol, egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a’r Côd ADY, darperir cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gefnogaeth ychwanegol o fewn yr ystafell ddosbarth. Er mwyn ateb gofynion arbenigol unigol ein disgyblion, darperir cefnogaeth ychwanegol y tu allan i’r dosbarth yn ôl y galw. Cydweithiwn hefyd gydag amrywiol asiantaethau allanol er mwyn adnabod anghenion, cytuno ar strategaethau addysgu a dysgu a derbyn cyngor er mwyn darparu ar gyfer anghenion pob un. Miss C Huntley yw’r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol.

**Cynllun Hygyrchedd**: Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd priodol a gwneir unrhyw addasiadau i’r dulliau o gyflwyno’r cwricwlwm yn ôl y galw.

**Iechyd a Diogelwch/Tir ac Adeiladau:** Cynhaliwyd ymweliadau Iechyd a Diogelwch yn nhymor yr Hydref 2024 ac yn nhymor y Gwanwyn 2025. Yn ystod y flwyddyn mae gatiau a ffens diogelu newydd wedi cael eu gosod ymlaen yr ysgol a gât diogelu newydd wrth ochr yr Ysgol. Mae gwaith adnewyddu wedi cael eu gwneud i rannau o dô yr Ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae golwg cyson ar gyflwr y tir a’r adeiladau, gan wneud unrhyw drwsiadau addas pan fo angen. Mae gan yr ysgol gytundeb gan y Sir ar gyfer glanhau’r ysgol. Mae holl gyfleusterau’r ysgol yn cael eu harchwilio’n rheolaidd yn unol â chytundeb lefel gwasanaeth y Sir.

**Gofynnir i’r rhieni beidio parcio o fewn ffiniau’r llinellau melyn a geir ar y ffordd wrth y giât pan ddônt â’r plant i’r ysgol yn y bore ac wrth gasglu eu plant o’r ysgol ar ddiwedd y dydd**.

# Blwyddyn Ysgol 2024-2025

## Diwrnodau HMS

2/9/24 4/11/24 21/2/25 17/3/25 21/7/25

| Tymor | Tymor yn dechrau | Hanner tymor | Diwedd y tymor |
|---|---|---|---|
| Hydref 2024 | Dydd Mawrth 3ydd Medi | Dydd Llun 28ain Hydref - Dydd Gwener 1af Tachwedd | Dydd Gwener 20fed Rhagfyr |
| Gwanwyn 2025 | Dydd Llun 6ed Ionawr | Dydd Llun 24ain Chwefror - Dydd Gwener 28ain Chwefror | Dydd Gwener 11eg Ebrill |
| Haf 2025 | Dydd Llun 28ain Ebrill | Dydd Llun 26ain Mai - Dydd Gwener 30ain Mai | Dydd Llun 21ain Gorffennaf |

## CYLLID YR YSGOL 2024—2025 SCHOOL FINANCE

**Gwelir isod gwariant yr ysgol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r costau'n cynnwys cynhaliaeth staffio, cynnal a chadw'r adeilad a thalu am gyflenwad o adnoddau cwricwlaidd. Ni wnaed taliad ar gyfer treuliau teithio neu gynhaliaeth i'r un aelod o'r Corff Llywodraethu'r ysgol a ni dderbynnir unrhyw roddion.**

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2024/25 | -434,588 | Formula Funding Allocation 2024/25 |
| Diffyg Ariannol a Ddygwyd Ymlaen o 2023/24 | 21,255 | Deficit Brought Forward from 2023/24 |
| Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd i 2024/25 | 45,020 | Deficit Carried Forward to 2024/25 |

**Presenoldeb a Phrydlondeb**: O Fedi 2024 hyd at ddiwedd Gorffennaf 2025.

| Presenoldeb | Absenoldeb awdurdodedig | Absenoldeb anawdurdodedig |
|---|---|---|
| 94.65% | 5.08% | 0.28% |

Er bod canran o absenoldebau anawdurdodedig yn parhau'n fechan, dilynir i fyny ar bob achos er mwyn cynnal y safonau. Mae prydlondeb disgyblion yn dda ar y cyfan, ac wedi gwella ers cyflwyno'r gofrestr disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr.

**Targedau'r Cynllun Datblygu Ysgol/ Cynllun Gweithredu:-** Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithiol, sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n deillio o'r argymhelliad a wnaed gan Estyn ynghyd â gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae aelodau'r corff Llywodraethol wedi derbyn

cyfrifoldeb am fonitro’r cynllun hunan-arfarnu a chânt gyfle cyson i adrodd ar y datblygiad mewn cyfarfodydd. Mae’r targedau’n cael eu gwerthuso’n rheolaidd.

# Ein Prif Flaenoriaethau

| **Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025, ein bwriad yw:** | |
|---|---|
| **1** | Parhau i godi safonau adborth y disgyblion a sicrhau bod yr adborth yn symud y dysgu ymlaen yn y foment - gan gynnwys safon y cwestiynu. |
| **2** | Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn adeiladol. |
| **3** | Gwella a mireinio systemau asesu ac olrhain i gefnogi a monitro cynnydd myfyrwyr yn effeithiol, gan gyd fynd gyda gofynion y Cwricwlwm i Gymru. |
| **4** | Defnyddio’r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored i gefnogi dysgu a lles disgyblion ar draws yr Ysgol. |

**Cwricwlwm ac Asesu**

Mae’r pedwar diben wrth wraidd cwricwlwm Ysgol Cefneithin wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru sydd yn statudol ers mis Medi 2022 ; sy'n rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod:

• yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;

• yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith;

• yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy’n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a’r byd;

• yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.















Mae’r holl athrawon a’r cynorthwy-wyr yn cadw a chynnal safon y darpariaeth a gynigir i ddisgyblion Cefneithin er mwyn sicrhau’r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Rydym yn tracio cynnydd disgyblion gan ddefnyddio ystod o strategaethau.

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o’r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob plentyn, beth bynnag fo’i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial.

Rhoddir pwyslais ar ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a TGCh a phwysleisir pwysigrwydd eu gwneud yn berthnasol ac yn ystyrlon i’r plentyn. Mae’n bwysig gwneud y plentyn yn ymwybodol o’i amgylchfyd, ei gymuned, ei wlad a’i fyd. Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi selio ar themâu, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o’r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda’i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm. Mae’r profiadau addysgiadol i ni’n cynnig yn rhan annatod o’n cwricwlwm, sy’n ehangu gorwelion ein plant, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

**Y chwe maes dysgu a phrofiad yw:**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (yn cynnwys cyfrifiadureg)
- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol)

Darperir cwricwlwm sy’n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o’r diwylliant Cymraeg a’r etifeddiaeth sydd ynghlwm â hyn. Mae gan yr ysgol hefyd bolisi cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a’r gwersi a addysgir pan fydd cyfle.

**Safonau a Pherfformiad 2024/25 Cyffredinol:**

- Presenoldeb: Parhau yn gyson – 94.64%

• Fframwaith Cefnogaeth Her ac Ymyrraeth: Mae'r ysgol yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion yr AALl.

**Hyfforddiant Mewn Swydd -** Cafwyd amrywiaeth o wahanol sesiynau hyfforddiant mewn swydd a mîn nos er mwyn sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ynghyd â diwallu anghenion unigol y staff.

**Adolygiadiadau i Brosbectws a Pholisiau'r Ysgol** –

Mae holl bolisiau'r ysgol yn gyfredol, ac fe adolygir pob polisi yn ôl y gofyn gan y Corff Llywodraethol. Diweddarwyd prosbectws yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copiau o'r polisiau a phrosbectws yr Ysgol i'w gweld ar wefan yr Ysgol.

**Polisi Amddiffyn Plant:** Mae gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yw Mrs Carys Richards a Miss Caroline Huntley. Mae gan aelod dynodedig o'r Corff Llywodraethol hefyd gyfrifoldeb am ddiogelu ac amddifyn plant – Mrs D Griffiths.

**Bwyta ac yfed yn iach –**

Mae'r ysgol yn ceisio'n galed i hybu ffordd iach o fyw ac mae'r polisi Bwyd a Ffitrwydd yn adlewyrchu hyn. Mae'r ysgol wedi ennill cydnabyddiaeth a derbyn 6 gwbor yn y meysydd gwahanol wrth gyrraedd safonau cynllun Ysgolion Iach y Sir.

**Trefniadau a chyfleusterau toiled** Mae gan yr ysgol yn cydweithio gyda'r Awdurdod Addysg i sicrhau bod y nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau yr Awdurdod Addysg

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae'n dyled yn fawr eleni eto i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion diflino wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol i godi arian tuag at anghenion yr ysgol.





# Profiadau ym maes chwaraeon

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin yn rhoi cryn dipyn o bwyslais ar chwaraeon. Ein prif nodau ar gyfer addysgu Addysg Gorfforol yw i annog a helpu pob plentyn i fyw bywyd iachus a bywiog, ac i hyrwyddo datblygiad o ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad a hunan hyder. Mae'r staff yn cynnig amryw eang o weithgareddau i blant o bob oedran, tu fewn a thu allan i'r cwricwlwm ffurfiol, gan eu herio i ddatblygu a gwella'u perfformiad unigol. Mae'r gweithgareddau yma'n cynnwys Athletau, Gêmau, Rygbi, Pêl Droed, Traws Gwlad Criced, Pêl Rwyd, Tenis a Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur. Manteisiwyd yn gadarn ar waith canmoladwy y llysgenhadon chwaraeon ynghyd â chefnogaeth Actif Sir Gar. Braf oedd eu gweld yn paratoi gweithgareddau chwaraeon ar gyfer y disgyblion yn rhithiol i gymryd rhan adegau egwyl e.e. yn eu clwb ffrindiau ffit, dawnsathon, diwrnod chwaraeon.













# Ymweliadau a Phrofiadau Addysgiadol

Eleni rydym wedi cynnal ymweliadau addysgiadol. Teimlwn yn gryf bod disgyblion yn elwa yn fawr iawn o gymryd rhan yn yr ymweliadau amrywiol a drefnir gennym i brofi profiadau newydd sydd yn ehangu eu haddysg yn gyffredinol. Gall ymweliadau addysgol gyfrannu at ddyfnhau'r dysgu yn ogystal â datblygu sgiliau personol a chymdeithasol amrwyiol a gwerthfawr. Trwy ymweliadau cyflwynwn brofiadau uniongyrchol sy'n ennyn diddordeb a dealltwriaeth o'r amgylchfyd gan atgyfnerthu'r dysgu. Rhown bwys ar sicrhau fod pwrpas a gwerth i'r ymweliadau, bod caniatad rheini ac asesiadau risg priodol mewn lle cyn cychwyn ar yr ymweliad.




Derbynfa
Reception






















SIOP LOSIN


Clwb Yr Urdd
















LIDL








Dymuna'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolchir hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth cyson.